



29.01.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Gobeithio eich bod chi gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru heddiw, dyma diweddariadau cyfredol o ysgol.

### **Dychwelyd i'r Ysgol**

#### **Fe all y wybodaeth hon dal i newid yn dilyn unrhyw adolygiadau LIC a BCBC.**

Mae ein darpariaeth o gefnogi i plant gweithwyr critigol a phlant bregus ar y safle yn ystod oriau ysgol arferol nawr wedi estynnu hyd at ddydd Gwener 12 Chwefror (hanner tymor).

Byddwn yn cysylltu gyda chi os, ar unrhyw adeg, mae meini prawf gweithwyr critigol BCBC yn newid. Bydd staff ysgol perthnasol yn cysylltu â rhieni / gofalwyr disgyblion a nodwyd fel disgybl bregus i gynnig cefnogaeth.

Ar hyn o bryd nid oes dal gennym unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y gallwn groesawu rhai neu / a phob disgybl yn ôl. Byddwn yn cysylltu gyda chi pan byddwn yn derbyn gwybodaeth cadarn o LIC a BCBC ynglŷn a chynlluniau ar gyfer ar ôl hanner tymor.

### **Gwaith Ysgol**

Mae pob disgybl, p'un ai ar y safle neu'n dysgu gartref, yn derbyn ac yn cael mynediad at yr un gweithgareddau dysgu. Mae ein darpariaeth ar-lein yn cael ei ddatblygu, adolygu a gwerthuso'n rheolaidd i sicrhau addysg parhaus i bawb.

Rydym yn parhau i ddarparu ystod o weithgareddau i'ch plant, sy'n heriol ac yn hwyl. Rydym yn deall, i lawer ohonoch, bod cefnogi eich plentyn / plant yn dysgu gartref yn heriol ac rydym yn gwybod bod llawer ohonoch chi a llawer o aelodau ein staff yn gweithio gartref gyda chyfrifoldeb am blant ar yr un pryd. Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni a gofalwyr am eich ymrwymiad a chefnogaeth yn ystod y cyfnod yma. Rydyn yn gwerthfawrogi eich ymdrechion fel rhieni ac rydyn yn cydnabod y gwaith rhagorol rydych yn gwneud tra fod gartref.

Hoffwn eich atgoffa unwaith eto, bod rhai plant yn caru gwaith ysgol ac yn hapus i gwblhau tasgau ar lein, ond nid yw hyn yn wir am bob plentyn. Chi yw'r arbenigwyr ar eich plant eich hun a'ch sefyllfa deuluol eich hun ac felly rydym yn gwerthfawrogi y bydd rhai ohonoch yn dymuno neu angen dewis ychydig o weithgareddau ac efallai na fydd hyn o fewn yr oriau ysgol arferol. Mae hyn yn hollol ddealladwy a rhaid i les teuluol ddod yn gyntaf.

Rwy'n siŵr bod llawer ohonoch yn poeni am y Gymraeg - peidiwch â phoeni. Gallwch chi helpu'ch plant trwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ar gael trwy gyfryngau amrywiol, e.e. gwrando ar straeon Cymraeg sydd ar gael ar Hwb, ymarfer gyda phodlediadau Tric a Chlic sydd ar gael ar YouTube, gwyllo Cyw ar S4C, gwrando ar ganeuon Cymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu pan fydd y plant yn ôl yn yr ysgol i ddal i fyny ar unrhyw bynciau pwysig y maent wedi'u colli; dyma beth rydyn ni wedi'i hyfforddi a'n cymhwyso i'w wneud ac nid oes angen i chi boeni am hyn.

### **Diwrnod HMS**

Nodyn i'ch atgoffa bod gennym ni ddiwrnod HMS wedi'i gynllunio ddydd Gwener 12 Chwefror. Bydd yr ysgol ar gau i bob disgybl - nid oes darpariaeth ar y safle ar gael y diwrnod hwnnw. Ni fydd unrhyw waith ysgol yn cael ei osod na sesiynau byw yn cael eu cynnal gan y bydd yr holl staff ar ddiwrnod hyfforddi dynodedig ar gyfer y Cwricwlwm Newydd.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch o gwbl yn ystod y cyfnod yma o gloi'n rhannol, p'un a yw'n addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar [admin.broogwr@bridgend.gov.uk](mailto:admin.broogwr@bridgend.gov.uk)

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes

Sharon Jayne

Pennaeth